| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD:** | **22, HYDREF, 2009** |
| **TEITL:** | **DIWYGIO'R CYNLLUN HAWLIAU DIRPRWYEDIG I SWYDDOGION** |
| **PWRPAS:** | **YCHWANEGU HAWLIAU DIRPRWYEDIG I REOLWR ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD CYMRU** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **CYNG. J. R. JONES, UWCH ARWEINYDD PORTFFOLIO - ADNODDAU.** |
| **AWDUR:** | **DILYS PHILLIPS,<br>PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL.** |

**1.** Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am weithredu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru ar ran y Cynulliad. Mae'n gwneud hynny mewn partneriaeth gyda chynghorau eraill y gogledd.

**2.** 'Roedd y swyddogaethau yn ymwneud a rhedeg yr asiantaeth wedi eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd yn yr hen gynllun dirprwyo. Pan newidiodd strwythur y Cyngor ni ddirprwywyd y swyddogaethau yma ymlaen i swyddog dan y strwythur newydd.

**3.** Bellach mae angen enwebu swyddogion unigol i weithredu fel Swyddogion Traffig dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ar y rhwydwaith cefnffyrdd ar draws gogledd Cymru. Y drefn arferol ar gyfer awdurdodi swyddogion unigol i gyflawni swyddogaethau ar ran y Cyngor yw trwy'r cynllun dirprwyo i swyddogion. Mae'r Cyngor yn dirprwyo'r swyddogaethau i'r Pennaeth priodol ac yntau/hithau yn ei dro yn awdurdodi swyddogion unigol i'w gweithredu.

**4.** Yn yr achos hwn, y swyddog mwyaf priodol i gyflawni swyddogaethau yn ymwneud â rhediad dydd i ddydd yr Asiantaeth Cefnffyrdd yw Rheolwr yr Asiantaeth. Mae o'n gweithredu dan oruchwyliaeth Bwrdd Asiantaeth ac mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cymryd trosolwg ar gyfeiriad strategol yr Asiantaeth. Bydd angen diwygio'r cynllun diprwyo i swyddogion i gyflawni hyn.

**<u>ARGYMHELLIAD.</u>**

**5.** Bod y Cyngor yn diwygio'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion trwy ychwanegu'r cymalau isod:

"4.7 <u>Rheolwr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru</u>

4.7.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd, o fewn y cynllun, a dan gyfarwyddyd y Bwrdd Asiantaeth i gyflawni swyddogaethau Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru

4.7.2 Penodi swyddogion traffig dan adran 2 Deddf Rheoli Traffig 2004."